Atal Tân Cymru

Elusen Diogelwch Tân Cymru

Adroddiad Blynyddol 2009

Croeso gan y Cadeirydd

Bu'n flwyddyn gyffrous a chadarnhaol i Atal Tân Cymru wrth inni ddatblygu gweithgareddau a gwasanaethau newydd, a chryfhau ein sefyllfa fel partner allweddol yn y gwaith o gynllunio, cyflwyno a gwerthuso mentrau diogelwch tân trwy Gymru.

Fe wnaethom ni barhau i adeiladu rhwydweithiau effeithiol a phartneriaethau gyda sefydliadau yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol, a rhwng y sefydliadau hyn a'r Gwasanaethau Tân ac Achub. Arweiniodd y partneriaethau hyn at nifer o brosiectau gyda'r nod o ostwng nifer y tanau mewn cartrefi, yn arbennig ymhlith y rhai sydd fwyaf mewn perygl neu sydd anhawsaf eu cyrraedd. Mae tystiolaeth ymchwil ddiweddar gan yr Adran dros Gymunedau a Llywodraeth Leol yn tanlinellu pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth os yw strategaethau atal tanau yn mynd i lwyddo.

Hefyd, fe wnaethom ni ehangu ein hymdrechion i gasglu a dadansoddi data ystadegol a thystiolaeth ymchwil, a hynny er mwyn hyrwyddo'r broses o dargedu mentrau diogelwch tân cymunedol yn well. Mae'r elusen hefyd wedi rhoi cychwyn ar astudiaethau ymchwil newydd er mwyn adnabod y dulliau mwyaf effeithiol o ddarparu gwybodaeth am ddiogelwch, a chefnogi cymunedau sydd o ddiddordeb penodol er mwyn lleihau eu risg o dân yn y cartref.

Er mwyn rhoi sylfaen gadarn ar gyfer datblygiad parhaus, mae'r elusen wedi pharhau i wella ei pholisïau a'i gweithdrefnau gweithredol, a roddwyd mewn lle i roi strwythur mwy effeithiol o ran staffio, a gwella systemau er mwyn sicrhau trefn lywodraethol dda. Hefyd, fe wnaethom ni ddechrau edrych ar gyfleoedd i sicrhau cyllid gan ymddiriedolaethau a sefydliadau elusennol, a ffynonellau newydd yn y sector cyhoeddus er mwyn sicrhau y gellir cynnal a datblygu ein gwaith yn y dyfodol.

Mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at ein llwyddiannau allweddol yn ystod y flwyddyn, ynghyd â'n blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol. Ni fyddai'r rhain yn bosib heb frwdfrydedd ac ymroddiad ein tîm bychan o staff, ymdrechion Bwrdd yr Ymddiriedolwyr, a chefnogaeth barhaus ein cyllidwyr a'n partneriaid.

Yn y flwyddyn sydd i ddod, bydd yr elusen yn parhau i adeiladu ar ei chryfderau a'i llwyddiannau, ac i ddysgu trwy gyflwyno prosiectau, cefnogi partneriaethau a hyrwyddo polisïau ac arferion sy'n seiliedig ar dystiolaeth, a hynny er mwyn gwneud cymunedau trwy Gymru yn fwy diogel rhag tân.

Mike Chown
Cadeirydd, Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

Ein Cenhadaeth:

“Lleihau nifer y marwolaeth a’r anafiadau oherwydd tanau, trwy godi ymwybyddiaeth am y peryglon, darparu gwybodaeth am ddiogelwch, hyrwyddo ymchwil i ddiogelwch tân, ac annog cydweithredu rhwng y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol er mwyn gwneud Cymru yn wlad fwy diogel”



Ffynhenell: Atal Tân Cymru - Arolwg ô 1,000 o gartrefi yng Nghymru, 2009

Tîm y Staff

Kim Smith, Prif Weithredwr

Kate Slowinski, Cydlynydd Prosiectau a Phartneriaethau

Richard Hall, Cydlynydd Polisïau ac Ymchwil (er Chwefror 2009)

Kathryn Eveleigh, Cydlynydd Gwasanaethau Canolog

Ymddiriedolwyr

Mike Chown (Cadeirydd er Hydref 2008)
Ymddiriedolwr Annibynnol

Steve Clarke (Cadeirydd hyd at Hydref 2008)
Ymddiriedolwr Annibynnol

Collin Crowley
Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a’r Gorllewin

Brian Fraser (ymddiswyddodd yng Ngorffennaf 2008)
Gwasanaeth Tân ac Achub y De

Syr Harry Jones
Ymddiriedolwr Annibynnol

Doug Mackay (ymddiswyddodd yng Ngorffennaf 2008)
Gwas. Tân ac Achub y Canolbarth a’r Gorllewin

Andy Marles (penodwyd yng Ngorffennaf 2008)
Gwasanaeth Tân ac Achub y De

Adelaide Morgan
Ymddiriedolwraig Annibynnol

Glenn Price (penodwyd yng Ngorffennaf 2008)
Awdurdod Tân ac Achub y De

Derek Rees (ymddiswyddodd yng Ngorffennaf 2008)
Awdurdod Tân ac Achub y De

Trevor Roberts
Awdurdod Tân ac Achub y Gogledd

Rebecca Rosenthal
Ymddiriedolwraig Annibynnol

Richard Smith (penodwyd yng Ngorffennaf 2008)
Gwas. Tân ac Achub y Canolbarth a’r Gorllewin

Simon Smith
Gwasanaeth Tân ac Achub y Gogledd

Gyda Diolch

Hoffai Atal Tân Cymru ddiolch o galon i nifer o sefydliadau ac unigolion am eu cefnogaeth i’r elusen yn ystod y flwyddyn, yn cynnwys:

Awdurdod Tân a Gwasanaeth Tân ac Achub y De
Awdurdod Tân a Gwasanaeth Tân ac Achub y Canolbarth a’r Gorllewin
Awdurdod Tân a Gwasanaeth Tân ac Achub y Gogledd
Llywodraeth y Cynulliad
ASH Cymru
Gofal a Thrwsio Cymru a’i Asiantaethau
Sefydliad Prydeinig yr Ysgyfaint Cymru
Greenfield Media
Moonoo Productions
Lime Green Tangerine
Semaphore Display
Age Concern Cymru
The Publicity Centre
Cwmni Ymchwil Beaufort
Circle IT
Allens
Dragon Supplies
Cymgor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Cynghorau Gwirfoddol Sirol Cymru
Menna Wyn
Fire Kills
Broomfield Alexander
Haines Watts
Unity Bank
Pro Copy

Prosiectau a Phartneriaethau

Byw'n Ddi-fwg

Partneriaeth rhwng Atal Tân Cymru ac ASH Cymru, gyda chefnogaeth Gwasanaethau Tân Cymru a Llywodraeth y Cynulliad, yw Byw'n Ddi-fwg.

Er bod mentrau Byw'n Ddi-fwg wedi eu cynnal yn Lloegr, dyma'r tro cyntaf yng Nghymru a'r unig brosiect i ddarparu gwybodaeth am leihau peryglon, nid yn unig i iechyd, plant a'r amgylchedd, ond hefyd i ddiogelwch tân. Hefyd, mae'n targedu gwybodaeth yn uniongyrchol i gartrefi lle mae pobl yn ysmygu, fel y cawsant eu hadnabod gan y Gwasanaethau Tân ac Achub yn ystod archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref.

Mae tystiolaeth a gafwyd o gynllun peilot a gynhaliwyd yn ardal Gwasanaeth Tân ac Achub y Canolbarth a'r Gorllewin i'w gweld yn dangos bod y dull yn llwyddo i annog ymddygiad mwy diogel, a chael mwy o bobl i roi'r gorau i ysmygu yn eu cartrefi. Rydym yn edrych ymlaen at adeiladu ar y cynllun peilot hwn er mwyn datblygu ac ymestyn y prosiect i weddill Cymru cyn diwedd 2009.

Y Bartneriaeth Gofal a Thrwsio

Arwyddodd Atal Tân gytundeb partneriaeth gyda Gofal a Thrwsio Cymru, sydd wedi ein galluogi i gydweithio tuag at ein nod cyffredin, sef gwella diogelwch a lles pobl hŷn sy'n agored i berygl yng Nghymru. Yn ganolog yn hyn, roedd astudiaeth o'r partneriaethau cyfredol a blaenorol rhwng y 22 o asiantaethau Gofal a Thrwsio a'r Gwasanaethau Tân ac Achub. Roedd hyn yn cynnwys argymhellion ar gyfer datblygu rhagor o gyfleoedd i gydweithio ac adeiladu ar arferion da.

Mae Atal Tân wedi sefydlu grŵp llywio partneriaethau i roi'r argymhellion ar waith, i sicrhau bod arferion da yn parhau ac yn cael eu hehangu, ac i fonitro canlyniadau'r partneriaethau.

Vera Brinkworth, Pennaeth Materion Allanol, Gofal a Thrwsio Cymru

Codi Ymwybyddiaeth o'r Peryglon

- Bu Atal Tân yn cydlynu'r flwyddyn lawn ddiwethaf o Fflach Tân, sef yr ymgyrch ar y cyfryngau ar y cyd â'r Gwasanaethau Tân ac Achub a Llywodraeth y Cynulliad. Yn ystod y flwyddyn, bu adnoddau gwybodaeth, digwyddiadau a hysbysebion ar y teledu yn tynnu sylw at beryglon tân yn ymwneud ag yfed a choginio, ysmygu a pheryglon dros dymor y dathlu. Yn ystod Wythnos Diogelwch Tân, bu straeon ar y newyddion gyda'r nos ar ITV yn tynnu sylw cynulleidfa ehangach at beryglon tanau mewn cartrefi.

- Fe gymerodd bron i 8,000 o blant o oedran ysgol gynradd ran yn ein hymgyrch Diogelwch ar Noson Tân Gwyllt, gan dderbyn gwybodaeth am dân gwyllt a diogelwch ar noson tân gwyllt trwy ysgolion a grwpiau cymunedol, ac anfon posteri ar gyfer cystadleuaeth Atal Tân.

- Ymunodd yr elusen â Lloyds TSB a'r Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru i dynnu sylw at beryglon tân yn y cartref yn y cyfnod yn arwain at y Nadolig. Roedd hyn yn cynnwys dosbarthu gwybodaeth am ddiogelwch tân a negeseuon testun animeiddiedig yn ystod tri digwyddiad cyhoeddus yng Nghymru.

- Ar Ddiwrnod Dim Ysmygu ym mis Mawrth, bu Atal Tân yn cydlynu diwrnod cyhoeddusrwydd yng Ngorsaf Dân Treforys yn Abertawe, gan roi nifer o gyfweliadau ar y cyfryngau i dynnu sylw at beryglon tân o ganlyniad i ysmygu.

- Daeth yr elusen ag ymarferwyr Diogelwch Cymunedol o'r Gwasanaethau Tân ac Achub gydag ymgynghorwyr o Sefydliad Prydeinig yr Ysgyfaint Cymru i ddarparu gwybodaeth am ddiogelwch tân i'r rhai hynny sydd mewn perygl oherwydd cyflyrau iechyd neu ddefnyddio nwyon meddygol gartref. Gan ddechrau yn y De, fe roddodd staff y Gwasanaeth Tân ac Achub gyflwyniadau i grwpiau "Anadlu'n Rhydd" yn lleol, sef i bobl yn byw gydag afiechyd ar yr ysgyfaint, eu cyfeillion, eu teuluoedd a gofalwyr. Yn eu tro, rhoddwyd Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref i'r rhan fwyaf o aelodau'r grwpiau er mwyn mynd i'r afael â'r peryglon penodol yn eu cartrefi hwy.

Partneriaethau a Rhwydweithiau

Mae Atal Tân yn hwyluso nifer o rwydweithiau sy'n bodoli ar gyfer gwneud penderfyniadau strategol, rhannau gwybodaeth ac arferion da, ac sy'n dwyn ynghyd ymarferwyr o'r Gwasanaethau Tân ac Achub ill tri. Mae'r rhain yn cynnwys y Fforwm Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, y Fforwm Ennyn Diddordeb Pobl Ifanc, y Grŵp Strategol Diogelwch Tân a'r Cyd-grŵp Tanau Bwriadol (sydd hefyd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Heddlu, y Comisiwn Coedwigaeth, Llywodraeth y Cynulliad a'r Gwasanaethau Ieuenctid.)

Mae gennym ran weithredol mewn nifer o rwydweithiau i godi ymwybyddiaeth am ddiogelwch tân trwy Rwydwaith Ymchwil Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a Chynghrair a Fforwm Rheoli Tybaco Cymru, ac rydym wedi dechrau gwneud cysylltiadau â nifer o rwydweithiau eraill megis Cynghrair Henoed Cymru, Dechrau'n Deg a'r Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol.

Polisi ac Ymchwil

Yn ffodus, mae nifer y bobl yng Nghymru yn dioddef anaf neu farwolaeth oherwydd tanau yn y cartref wedi gostwng dros amser. Gostyngodd y nifer (anangheuol ac angheuol) mewn tanau damweiniol yn y cartref yng Nghymru o 697 yn 2000, i 488 yn 2007.

Pwysigrwydd Ymchwil

- **Pwy** sydd fwy mewn perygl o dân yn y cartref?
- **Ble** allwn ni ddod o hyd iddynt? A yw rhai pobl yn anos eu cyrraedd gyda negeseuon diogelwch tân, a pham?
- **Beth** ddylid ei wneud i leihau'r perygl o dân yn y cartref? A yw hi'n debygol y bydd angen mathau neu lefelau gwahanol o wybodaeth a chefnogaeth ar rai cartrefi?
- **Sut** rydym yn cyflwyno'r wybodaeth er mwyn sicrhau ei bod yn cael yr effaith fwyaf wrth annog ymddygiadau mwy diogel?

Bydd ymchwil yn gymorth inni ateb y cwestiynau hyn, ac yn gallu cynorthwyo'r modd y mae gweithgareddau atal tân yn cael eu cynllunio a'u cyflwyno er mwyn cael fwyaf o effaith ar ein cymunedau. Hefyd, gall ymchwil ar ffurf gwerthusiadau cadarn o fentrau diogelwch tân ddweud wrthym "beth sy'n gweithio" a pham. Bydd dangos sut y mae'r mentrau hyn yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol, mesuradwy i ddiogelwch cymunedau yn dod yn gynyddol bwysig, yn enwedig yn yr hinsawdd economaidd bresennol pan allai'r cyllid sydd ar gael fod yn gyfyngedig.

Ymchwil a Dylanwadu ar Bolisi

Yn ystod y flwyddyn, mae'r elusen wedi cynnal nifer o astudiaethau, yn cynnwys:

Arolwg o Agweddau at Ddiogelwch Tân, Cymru. Cymerodd fil o gartrefi yng Nghymru ran yn yr arolwg cyntaf o'i fath, i bennu agweddau ac ymddygiadau sy'n ymwneud â pheryglon tân. Defnyddir y canfyddiadau i gefnogi'r broses o dargedu gwybodaeth am ddiogelwch tân a mentrau cefnogol yn well.

Arolwg o'r Asiantaethau Gofal a Thrwsio yng Nghymru. Mae'r mudiad Gofal a Thrwsio yn gweithio gyda phobl sydd dros 60 mlwydd oed er mwyn sicrhau bod eu cartrefi'n ddiogel, yn sicr, ac yn briodol i'w hanghenion. Fe wnaethom ni gyfweld ag arweinwyr o'r 22 asiantaeth yng Nghymru er mwyn adnabod y rhwystrau a'r cyfleoedd sy'n bodoli mewn perthynas â gweithio mewn partneriaeth â'r Gwasanaethau Tân ac Achub. Defnyddir argymhellion yr adroddiad i gynyddu'r nifer ac i wella ansawdd y partneriaethau, gyda'r bwriad o leihau'r peryglon o dân yn y cartref ymysg pobl hŷn sydd gyda'r mwyaf agored i berygl.

Gwerthuso'r Prosiect Peilot Byw'n Ddi-fwg. Bu'r elusen yn gwerthuso'r cam 'peilot' o'r prosiect hwn, a oedd wedi ei anelu at gartrefi lle mae pobl yn ysmygu, gan roi gwybodaeth ynghylch ffyrdd i leihau'r peryglon a achosir gan ysmygu i iechyd, plant a'r amgylchedd. Gwnaeth yr astudiaeth argymhellion ar gyfer gwella camau diweddarach y prosiect.

Yn ogystal ag arwain a chynnal ei hymchwil ei hun, bu Atal Tân yn casglu, yn dadansoddi ac yn crynhoi prif ganfyddiadau ymchwil berthnasol arall ym maes diogelwch tân, ac yn darparu hyn i ystod eang o bartneriaid er mwyn iddynt eu hystyried wrth ddatblygu gweithgareddau diogelwch tân yn y dyfodol.

Yn y dyfodol, bydd Atal Tân yn parhau i adeiladu ar ei chysylltiadau cadarnhaol ag unigolion allweddol a chyrff penderfynu fel ffordd i annog polisïau ac arferion diogelwch tân yn seiliedig ar dystiolaeth o fewn Llywodraeth y Cynulliad, y Gwasanaethau Tân ac Achub a phartneriaid eraill sydd â diddordeb mewn diogelwch cymunedol.

Edrych tua'r Dyfodol

Yn y flwyddyn sydd i ddod, bydd Atal Tân yn adeiladu ar ei llwyddiannau, ac yn parhau i ddatblygu ei safle fel hwylusydd ac un o'r rhai allweddol sy'n cyfrannu at gyfeiriad strategol ac arferion atal tân yn seiliedig ar dystiolaeth trwy Gymru.

Byddwn yn cydweithio ag ASH Cymru a'r Gwasanaethau Tân ac Achub i ymestyn y prosiect Byw'n Ddi-fwg trwy Gymru, a byddwn yn cefnogi ac yn monitro datblygiad parhaus y partneriaethau sy'n bodoli rhwng yr Asiantaethau Gofal a Thrwsio a'r Gwasanaethau Tân ac Achub, gan ennyn cyfranogiad pobl hŷn sydd mewn mwy o berygl o farw a chael anaf oherwydd tân.

Byddwn hefyd yn edrych ar bartneriaethau a phrosiectau newydd gyda sefydliadau eraill sy'n gweithio er mwyn, a gyda, grwpiau eraill sydd mewn mwy o berygl na'r cyfartaledd o ddioddef tân yn y cartref, ac sydd yn anodd eu cyrraedd trwy negeseuon diogelwch tân confensiynol a/neu a allai fod yn gyndyn o fabwysiadu ymddygiadau mwy diogel. Fe allai'r rhain gynnwys sefydliadau sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd, cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, a'r rhai sydd ag afiechydon meddwl neu gorfforol. Bydd Atal Tân hefyd yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu partneriaethau rhwng y Gwasanaethau Tân ac Achub a mudiadau'n seiliedig yn y gymuned.

Yn ei gwaith, bydd yr elusen yn canolbwyntio ar weithgareddau sy'n gweithio gyda phobl er mwyn iddynt allu gwneud dewisiadau cytbwys a rheoli eu peryglon o dân yn y cartref yn fwy effeithiol. Rydym hefyd yn dymuno hybu cyfloedd i bobl ddod yn rhan o lunio mentrau diogelwch tân cymunedol yn y dyfodol.

Bydd yr elusen yn parhau i greu cysylltiadau gyda chymunedau academaidd ac ymchwil, casglu a dosbarthu tystiolaeth a gafwyd yn dilyn ymchwil ym maes diogelwch tân ym Mhrydain ac yn rhyngwladol, a chynnal astudiaethau newydd i ddysgu mwy am agweddau ac ymddygiadau pobl mewn perthynas â diogelwch tân. Bydd hyn yn arwain at fod yn well wrth dargedu gweithgareddau diogelwch tân i'r rhai sydd mewn mwyaf o angen, a defnyddio'r modelau cyflwyno a brofwyd yn effeithiol wrth feithrin newid cadarnhaol.

Er mwyn sicrhau bod ein gweithgareddau a'n gwasanaethau o safon uchel, yn gynaliadwy ac yn golygu gwerth am arian, bydd Atal Tân yn parhau i adolygu a gwella ei pholisïau, ei gweithdrefnau a'i systemau mewn perthynas â chyflogaeth, trefn lywodraethu, cyflwyno gwasanaethau, rheolaeth a gweinyddu. Bydd pob datblygiad yn agored i fonitro a gwerthusiadau cadarn, a bydd yr wybodaeth a geir yn goleuo cyfeiriad strategol, gweithgareddau a gwasanaethau'r elusen yn y dyfodol. Byddwn yn parhau i chwilio am gyfleoedd i ddenu cyllid cynaliadwy gan ystod eang o ffynonellau, yn cynnwys ymddiriedolaethau a sefydliadau elusennol, grantiau a chomisiynau gan y sector cyhoeddus, a rhoddion gan y sector preifat.

Bydd Atal Tân yn parhau i weithio'n agos â'r Gwasanaethau Tân ac Achub, Cangen Gwasanaethau Tân Llywodraeth y Cynulliad a phartneriaid eraill er mwyn hybu ffordd gyffredin o fynd i'r afael â diogelwch tân cymunedol sy'n hyrwyddo cyfranogiad gan ddefnyddwyr, cydweithredu, arferion yn seiliedig ar dystiolaeth, gwerth am arian a'r safanau uchaf o ran gwasanaeth.

Ffynhonell: Data Digwyddiadau Tân 2007, Ystadegau Diogelwch Cymunedol Llywodraeth y Cynulliad ac Amcangyffrifon poblgaeth Canol-Blwyddyn y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2007

Ymddiriedolaeth Diogelwch Tân Cymunedol Cymru (a elwir Atal TÂN CYMRU)

Elusen Gofrestredig Rhif 1100964

Cyfrifon Cryno

Am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2009

Daw'r ffigyrau canlynol o ddatganiad ariannol llawn Atal Tân Cymru am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2009, ac a fydd yn dod gerbron yr Ymddiriedolwyr ar 21 Hydref 2009, ac yn cael ei gyflwyno i'r Comisiwn Elusennau. Mae'r archwilwyr, sef Broomfield & Alexander, y mae ei farn arfaethedig yn ddiamod, wedi cadarnhau'r wybodaeth i ganiatáu dealltwriaeth lwyr o faterion ariannol yr Elusen. Am ragor o wybodaeth, dylid edrych ar grynodeb yr archwilydd ynghylch y cyfrifon hynny ac adroddiad blynyddol yr Ymddiriedolwyr; bydd copïau o'r rhain i'w cael gan Atal Tân Cymru o'r Llawr Gwaelod, 6 Hazell Drive, Casnewydd, NP10 8FY os gwneir cais ysgrifenedig amdanynt.

	2009	2008
Asedau Sefydlog, yn cynnwys dodrefn, offer a gwelliannau i eiddo ar les	8,208	10,093
Buddsoddiad mewn Is-gorff	1	1
Dyledwyr, sef yr hyn sy'n ddyledus i'r elusen:		
Grantiau sy'n ddyledus a gwariant y talwyd amdano eisoes	6,144	25,716
Arian parod, sef arian sydd yn y banc neu mewn llaw	267,621	195,917
	281,974	231,727
Llai: Yr hyn sy'n ddyledus gan yr elusen i:		
Credydwyr a chroniadau	(61,630)	(6,683)
Gan adael yr hyn sy'n eiddo i'r elusen	220,344	225,044
Sut y crëwyd hyn:		
Gan gronfeydd cyfyngedig	-	20,655
Gan gronfeydd incwm dynodedig	214,400	-
Gan gronfeydd anghyfyngedig	5,944	204,389
	220,344	225,044

Y Gweithrediadau Blynyddol: O ble y daeth ein harian:

	Cronfeydd Cyfyngedig	Cronfeydd Anghyfyngedig	Cyfanswm 2009	Cyfanswm 2008
Adnoddau i Mewn:				
Grantiau a nawdd i'w derbyn	241,225	274,649	515,874	538,049
Llog a dderbyniwyd ac incwm arall	9,794	-	9,794	10,986
	251,019	293,168	530,368	549,035
Adnoddau Allan:				
Llai: Gwariant ar gyflogau, costau staffio a gorbenion cyffredinol	237,200	293,168	530,368	538,350
Adnoddau i Mewn (Allan) Net	13,819	(18,519)	(4,700)	10,685
Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd	2,136	(2,136)	-	-
Gweddill y cronfeydd a ddygwyd ymlaen	204,389	20,655	225,044	214,359
Gweddill y cronfeydd a ddygwyd ymlaen	220,344	-	220,344	225,044

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan yr Ymddiriedolwyr, ac fe'u llofnodwyd ar eu rhan gan y Cadeirydd, M Chown.

Atal Tân Cymru
Elusen Diogelwch Tân Cymru

Ein Cenhadaeth:

“Lleihau nifer y marwolaeth a’r anafiadau oherwydd tanau, trwy godi ymwybyddiaeth am y peryglon, darparu gwybodaeth am ddiogelwch, hyrwyddo ymchwil i ddiogelwch tân, ac annog cydweithredu rhwng y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol er mwyn gwneud Cymru yn wlad fwy diogel”

Cefnogir Atal Tân Cymru gan grantiau gan y tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru, Llywodraeth y Cynulliad a rhoddion elusennol

Atal Tân Cymru • Llawr Gwaelod
6 Hazell Drive • Casnewydd • NP10 8FY
Ffôn: 01633 654000
We: www.ataltan.org
Rhif Nghymru 1100964
Cwmni Cyfyngedig trwy Warant
Yng Nghymru 4556865